



Canllaw i'r Cynllun
Graddio Seren ar gyfer
HUNAN-DDARPAR

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Ansawdd yn Allweddol
- 1.2 Ein hymrwymiad i chi
- 1.3 Ansawdd ar draws y graddfeydd Seren
- 1.4 Beth yw Ansawdd?
- 1.5 Sut ydym ni'n mesur Ansawdd?
- 1.6 Y Broses Asesu
- 1.7 Pennu'r raddfa Seren
- 1.8 Dosbarthiadau
- 1.9 Disgrifiad
- 1.10 Naws am Le

2.0 Safonau Cyffredinol

- 2.1 Gofynion Ychwanegol Cynllun Croeso Cymru
- 2.2 Iechyd, Diogelwch a Gwarchodaeth
- 2.3 Archebu a phrisiau

3.0 Allanol

- 3.1 Golwg Adeiladau
- 3.2 Tiroedd, Gerddi a Pharcio
- 3.3 Yr Amgylchedd a'r Argraff Gyntaf

4.0 Glanweithdra

- 4.1 Cyffredinol

5.0 Effeithlonrwydd Rheolaeth

- 5.1 Gwybodaeth Cyn Cyrraedd
- 5.2 Croeso a'r Weithdrefn Cyrraedd
- 5.3 Gwybodaeth i Westeion yn yr Uned a Chyffyrddiadau Personol

6.0 Ardaloedd Byw a Bwyta

- 6.1 Cyffredinol
- 6.2 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 6.3 Preifatrwydd
- 6.4 Gwresogi, Goleuo ac Awyru

7.0 Ystafelloedd Gwely

- 7.1 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 7.2 Gwelyau a Dillad Gwely
- 7.3 Gwresogi, Goleuo ac Awyru

8.0 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

8.1 Cyffredinol

9.0 Cegin

9.1 Cyffredinol

9.2 Rhestr Offer y Gegin

10.0 Cyfleusterau Ychwanegol

10.1 Cyffredinol

11.0 Cod Ymddygiad

12.0 Amodau Cyfranogi

12.0 Newid Perchnogaeth

13.0 Arwyddion

14.0 Beth i'w wneud os ydych yn anghytuno â'r raddfa Seren a roddir

1.1 Cyflwyniad

1.1 Mae Ansawdd yn Allweddol

Mae Croeso Cymru'n deall bod ansawdd yn allweddol ar gyfer llwyddiant yn y diwydiant lletygarwch modern. Er mwyn i'r sector hunan-ddarpar fod yn llwyddiant a chystadleuol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mae'n bwysig bod safonau ansawdd yn uchel ac yn parhau i wella. Mae'r safon hunan-ddarpar wedi'i dylunio i helpu busnesau sicrhau llwyddiant.

1.2 Ein hymrwymiad i chi

Bydd ein haseswyr Croeso Cymru proffesiynol yn gweithio gyda chi i wneud y mwyaf o botensial eich busnes. Fel aelod o'n cynllun graddio seren, byddwn yn ymweld â chi bob yn ail flwyddyn er mwyn cynnal asesiad. Bydd yr ymweliad hwn yn craffu ar bob agwedd o'ch busnes, o edrych ar eich gwefan i'r ffordd rydych yn ffarfelio â chwsmeriaid. Ar ôl pob ymweliad asesu, byddwn yn rhoi adborth ar lafar i chi yn ogystal ag adroddiad ysgrifenedig manwl. Mae'r offer hyn wedi'i ddylunio i'ch cynorthwyo chi i wella eich busnes.

1.3 Ansawdd ar draws y graddfeydd Seren

Bydd eich aseswyr yn graddio ansawdd pob agwedd o'ch busnes i bum lefel, yn seiliedig ar ddisgwyliadau cwsmeriaid o ansawdd a safonau presennol ar draws y sector yn y DU. Mae'r asesiad yn wrthrychol, ac ni fydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'ch busnes yn seiliedig ar arddull neu chwaeth bersonol. Y nod yw ychwanegu ansawdd heb ddiddymu cymeriad ac ansawdd yr eiddo. Cyn yr ymweliad, bydd eich asesydd yn adolygu gwefan eich eiddo er mwyn gwirio bod y disgrifiadau a'r delweddau yn gyfredol ac yn adlewyrchiad go iawn o'r eiddo.

1.4 Beth yw Ansawdd?

Beth bynnag yw arddull neu gysyniad eich eiddo hunan-ddarpar, bydd eich gwestai ac asesydd Croeso Cymru yn chwilio am ansawdd a chyfforddusrwydd. Bydd yr asesydd yn craffu ar bethau fel y canlynol:

Ardaloedd Byw a'r Gegin

- Ansawdd a chyfforddusrwydd y dodrefn
- Ystafelloedd wedi'u haddurno'n ddeniadol a dodrefn meddal sy'n cyd-gordio
- Digon o fod a chyfforddusrwydd i ddarparu ar

gyfer y nifer benodol o westeion

- Cyffyrddiadau ychwanegol i wella arhosiad gwestai, gan gynnwys argaeledd Wi-Fi, setiau teledu modern, systemau sain/cerddoriaeth a chyfleusterau awyr agored
- Ceginau hawdd i'w defnyddio sy'n cynnwys digon o offer ac adnoddau modern

Ystafelloedd Gwely ac Ystafelloedd Ymolchi

- Ansawdd a chyfforddusrwydd y gwely(au)
- Ansawdd y llieiniau gwely a chyflwyniad y gwely(au)
- Ystafelloedd wedi'u haddurno'n ddeniadol a dodrefn meddal sy'n cyd-gordio
- Cyffyrddiadau ychwanegol sy'n gwneud yr ystafelloedd yn fwy croesawgar
- Ansawdd y gosodiadau a'r tywelion
- Ystafelloedd hawdd i'w defnyddio: os cânt eu dylunio'n dda, nid oes rhaid i ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi fod yn fawr o ran maint i fod yn hawdd i'w defnyddio

Croeso a Lletygarwch

Bydd eich asesydd yn craffu ar y croeso rydych yn darparu i'ch gwesteion, sy'n gallu amrywio o groeso personol i weithdrefn cyrraedd wedi'i threfnu'n dda. Mae pecynnau croeso a gwybodaeth i westeion hefyd yn elfennau pwysig o'r asesiad, yn ogystal ag asesiad o allu'r rheolwr i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi yn brydlon.

Glanweithdra

Mae glanweithdra yn hollbwysig i bob cwsmer, beth bynnag y raddfa seren. Mae disgwyl i bob eiddo fod yn hynod lân ar gyfer pob ymwelydd newydd.

1.5 Sut ydym ni'n mesur Ansawdd?

Yn ystod eich ymweliad asesu, bydd eich asesydd yn gwneud dyfarniadau ansawdd ar draws pob agwedd o'ch busnes hunan-ddarpar ac yn graddio pob is-bennawd allan o bump. Ar ôl cyfrifo cyfanswm eich graddfeydd, byddwch yn cael gradd, ar ffurf canran, a fydd yn eich gosod o fewn i un o'r bandiau pum seren. Fodd bynnag, er mwyn cadarnhau eich graddfa seren benodol, mae angen i'r graddfeydd a ddyfarnwyd o fewn pob un o'r pum maes allweddol gwympo o fewn y band hwnnw, neu fand uwch, yn ogystal. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod eich busnes yn cynnig lefel gyson o ansawdd, yn unol â'r raddfa seren a ddyfarnwyd.

Mae yna saith maes i'w graddio, ac wythfed, sef Adloniant, i eiddo sydd â phwll nofio neu gyfleusterau hamdden eraill neu ardal chwarae gemau. Yr unig feysydd y mae'n rhaid i'ch eiddo gyflawni'r radd

leiaf ar gyfer y raddfa seren targed yw'r **meysydd allweddol**. Bydd y graddfeydd ar gyfer y meysydd eraill yn helpu i wthio'ch gradd gyflawn tuag at y lleiafswm sydd ei angen ar gyfer y raddfa seren targed, ond nid ydynt yn hanfodol. Y meysydd allweddol yw:

- Glanweithdra
- Ardaloedd cyhoeddus
- Ystafelloedd gwely
- Ystafelloedd ymolchi
- Y gegin

Mae'r aseswyr wedi'u hyfforddi i ddyfarnu graddfeydd yn erbyn meincnodau cenedlaethol mewn ffordd wrthrychol a chysu.

Cynghorion

Byddwch yn wrthrychol ac yn hunan-feirniadol wrth ystyried ansawdd:

- Peidiwch â gor-addo. Peidiwch â chael eich temtio i hawlio eich bod yn cynnig moethusrwydd ar eich gwefan, oni bai bod y cyfleusterau rydych yn eu gwerthu wir yn foethus. Mae cwsmeriaid yn teithio â disgwyliadau. Mae'n well mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau eich cwsmeriaid, yn hytrach na methu â'u gwireddu.
- Byddwch yn gwsmer i'ch busnes eich hun. Cymerwch amser i ddefnyddio eich gwefan ac i gysgu yn eich ystafelloedd gwely er mwyn profi'r hyn rydych yn ei gynnig i'ch gwsteion.
- Does dim angen i chi ddilyn y dorf. Peidiwch â bod yn ofnus o gael eich arddull eich hun.
- Argraffiadau cyntaf: Mae cyrraedd eiddo hunan-ddarpar am y tro cyntaf yn cynnwys cyfres o argraffiadau cyntaf. Bydd talu sylw i'r meysydd critigol canlynol yn talu ar ei ganfed:
 - Maes parcio glân a thaclus
 - Gerddi taclus a graenus
 - Blodau ffres a basgedi croeso
 - Ystafelloedd glân, wedi'u hawyru
 - Gwelyau wedi'u cyflwyno'n hyfryd

1.6 Y Broses Asesu

Mae pob un o'n haseswyr yn brofiadol iawn yn y sector hunan-ddarpar. Maen nhw'n profi arfer gorau ym mhob maes ac yn gallu rhannu'r wybodaeth gyda chi er budd eich busnes. Byddant yn asesu ansawdd eich busnes yn onest, gyda'r amcan o'ch cynorthwyo chi i wella eich busnes. Cymerwch fantais o arbenigedd eich asesydd.

Cynghorion

Y broses asesu:

- Cyn eich asesiad, paratowch eich eiddo yn yr un modd ag y byddech yn gwneud cyn i westeion gyrraedd. Gwnewch yn siŵr bod y pecyn cyrraedd a gwybodaeth i westeion ar ddangos. Paratowch eich gwelyau a sicrhewch fod y tywelion yn eu lle. Bydd hynny'n helpu eich asesydd i brofi eich eiddo yn yr un modd ag y byddai eich gwsteion yn gwneud.
- Y tro cyntaf y byddwch yn cwrdd â'ch asesydd, mae'n bosibl y byddwch yn poeni nad ydych wedi darparu neu ddeall holl ofnyion y cynllun asesu. Peidiwch â phoeni, bydd eich asesydd yn trafod y sefyllfa gyda chi. Os oes angen mwy o amser arnoch, mae'n bosibl gohirio'r graddio tan eich bod wedi cwblhau'r gwaith a rhoi mwy o amser i chi ychwanegu unrhyw eitemau neu gyfleusterau sydd ar goll. Efallai bydd angen ymweliad pellach, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am hynny.
- Ar wahân i'r uchod, y nod yw eich helpu a darparu cyngor. Arddull a chymeriad eich eiddo yw'r peth sy'n ei wneud yn unigryw. Nod eich asesydd yw gwella hynny, nid ei newid.
- Gofynnwch gwestiynau i'ch asesydd – llawer o gwestiynau!
- Cadwch mewn cysylltiad. Mae aseswyr yn hapus i ateb eich cwestiynau tu allan i ymweliadau asesu.

1.7 Pennu'r raddfa Seren

Mae yna dair prif elfen i'r broses asesu a fydd angen eu cyflawni er mwyn ennill graddfa seren:

- Rhaid diwallu pob rhwymedigaeth statudol.
- Rhaid darparu pob gofyniad mynediad lleiaf. Rhestrir y rhain ar ddechrau pob adran asesiad ac mae pob adran yn cynnwys gofnyion ychwanegol, neu 'gymhwyswyr' ar gyfer pob graddfa seren.
- Y graddfeydd ansawdd isaf. Bydd yr aseswyr yn graddio pob elfen wahanol ym mhob maes allan o bump. Cyfrifir cyfanswm y graddfeydd ac yna cânt eu rhannu gyda'r uchafswm posibl (175 fel arfer) er mwyn cael canran ar gyfer pob adran a chanran gyflawn.

Wrth roi gradd ansawdd allan o bump am eitem, er enghraifft gorchudd llawr, darn o ddodrefn neu ddyfais cegin, bydd ein hasesydd yn ystyried nifer o ffactorau:

- Beth yw'r ansawdd cynhenid?
- Beth yw oed a chyflwr yr eitem?
- Pa mor dda mae'r eitem yn perfformio?

Er enghraifft, system wresogi ar gyfer bwthyn. Efallai bod gan ddau fwthyn yr un boeler nwy modern a system gwresogyddion, ond mae'r gradd pum seren

yn fwy tebygol o gael ei dyfarnu i'r bwthyn sydd â falfau thermostaig ar y gwresogyddion a llosgwr pren yn y lolfa, oherwydd byddai system o'r fath yn darparu mwy o hyblygrwydd i westeion.

Er mwyn cael graddfa pum seren a chanran gyflawn o 87%, y nod yw sicrhau 'pump' (allan o bump) mewn cymaint o feysydd ac sy'n bosibl, ac yn sicr dim unradd lai na phedwar mewn unrhyw faes. Dyfarnir graddfeydd pum seren i eitemau sydd o ansawdd 'arbennig'.

Mae graddfa pedair seren yn debygol o gynnwys sgorau o bedwar yn bennaf, ac ambell sgôr o dri a phump.

Mae buddsoddiad parhaus gan ddarparwyr a disgwyliadau cynyddol gwsteion yn golygu bod meincnodau'n codi yn rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd ystafell ymolchi a gafodd sgorau o 'bump' yn bennaf bum mlynedd yn ôl yn cael sgorau o 'bedwar' yn awr. Bydd yr asesydd bob tro yn cynnig cyngor ac yn awgrymu ble a phryd y dylid blaenoriaethu ac uwchraddio er mwyn cynnal graddfa. Mae'n syniad da ymweld ag eiddo arall er mwyn cael syniadau newydd neu i adolygu gwefannau eiddo tebyg o ran pris a graddfa.

Sgorau

Ar gyfer pob maes yr asesiad, bydd yr asesydd yn rhoi un o'r sgorau canlynol i chi:

- Ansawdd rhagorol – 5 pwynt
- Ansawdd da iawn – 4 pwynt
- Ansawdd da – 3 pwynt
- Ansawdd eithaf da – 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol – 1 pwynt

Bandiau Ansawdd (%)

Graddfa

Seren	★	★★	★★★	★★★★	★★★★★
Cyflawn	34-47	48-59	60-74	75-86	87-100
Glanweithdra	60	60	65	80	90
Ardaloedd cyhoeddus	34	48	60	75	87
Ystafelloedd gwely	34	48	60	75	87
Ystafelloedd ymolchi	34	48	60	75	87
Ceginoedd	34	48	60	75	87

Ar ôl eich ymweliad, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig manwl ar brofiad y cwsmer, ynghyd â sgorau unigol ar gyfer pob maen prawf. Amlinellir agweddau cadarnhaol eich busnes, yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu gwella. Bydd hynny'n darparu meincnod i chi ar gyfer cynnal ansawdd eich

gwasanaethau a'ch cyfleusterau ac yn eich helpu chi i flaenoriaethu a chynllunio datblygiadau yn y dyfodol.

1.8 Dosbarthiadau

Tra bod y rhan fwyaf o fusnesau yn gallu darparu pob gofyniad mynediad lleiaf, efallai na fydd pob busnes yn gallu cyflawni pob gofyniad mynediad lleiaf. Efallai y bydd hyn oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig â statws Adeilad Rhestredig, er enghraifft.

Mae Croeso Cymru yn gweithredu proses ddosbarthu er mwyn mynd i'r afael â'r math hwn o broblem ac mae'n bosibl cael dosbarthiad trwy eich hasesydd. Ystyrir yr hyblygrwydd hwn ar sail pob achos unigol. Dyfarnir dosbarthiadau yn unig os yw disgrifiad y wefan wedi cael ei newid yn barod er mwyn esbonio i ddarpar westeion nad yw'r eiddo'n cwrdd â'r gofyniad eitem/mynediad. Ni ellir cadarnhau graddfeydd tan bod deiliant y dosbarthiad yn hysbys.

1.9 Disgrifiad

At ddiben cyfrannu at Gynllun Ansawdd Hunan-Ddarpar Croeso Cymru, rhaid bod yr eiddo yn hunangynhwysol. Rhaid bod uned hunangynhwysol yn cynnwys ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, ardal gyhoeddus a chegin y tu ôl i brif ddrws sy'n darparu mynediad i breswylwyr yn unig.

1.10 Naws am Le

Tra nad yw ansawdd byth yn mynd allan o ffasiwn, bydd ychwanegu Naws am Le at brofiad yr ymwelydd yn sicrhau bod yr ymweliad yn un cofiadwy. Gall Naws am Le gynnwys rhywbeth syml megis ychwanegu arwyddion, cynnyrch neu nodwedd i'ch busnes er mwyn ychwanegu ychydig o flas lleol. Fel arall, dewch o hyd i wybodaeth ddiddorol am eich ardal a fydd yn ychwanegu at eich gwybodaeth ranbarthol, a rhannwch hyn gyda'ch ymwelwyr. Yn ogystal, bydd 'Croeso' syml yn gwneud argraff gyntaf unigryw. Rydym ni wedi cynhyrchu trosolwg o frand Cymru ac arweiniad ar ein synnwyr o le. Gobeithio y bydd yr offer hyn yn rhoi syniadau i chi o ran sut i greu profiad bythgofiadwy i'r gwsteion.

Ewch i: <https://businesswales.gov.wales/tourism/other-useful-links-for-further-information>

2.0 Safonau Cyffredinol

Deddfwriaeth sy'n effeithio ar Lety Hunan-Ddarpar

Diogelwch

- Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Diogelwch Tân, Nwy a Thrydan
- Profi Offer Trydanol
- Cynnyrch Diogel
- Rheoliadau Gwelyau Bync
- Safonau Prydeinig sy'n berthnasol i eitemau fel cotiau, cadeiriau uchel a chorlannau chwarae

Eiddo

- Caniatâd Cynllunio
- Cyflenwadau Dŵr Preifat
- Trwydded Deledu

Gwahaniaethu

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cofnodion
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Deddf Diogelu Defnyddwyr

- Hysbysebu
- Priso

2.1 Gofynion Ychwanegol Cynllun Croeso Cymru

Atebolrwydd Cyhoeddus

Bydd gofyn i berchnogion ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig eu bod nhw'n cynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'u bod nhw'n cyflawni'r gofynion uchod wrth ymgeisio am y tro cyntaf ac wrth adnewyddu eu gradd seren.

Canllaw Hygyrchedd/Datganiad Mynediad

Bydd gofyn i berchnogion ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig eu bod nhw wedi ysgrifennu Canllaw Hygyrchedd sydd ar gael i'r cyhoedd – disgrifiad o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir, yn benodol mewn cysylltiad â hygyrchedd, er mwyn hysbysu pobl ag anghenion mynediad.

2.2 Iechyd, Diogelwch a Gwarchodaeth

- Cynnal lefel uchel o ddiogelwch a gwarchodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar weithdrefnau mewn argyfwng.
- Os nad yw'r perchennog yn byw ar y safle, rhaid arddangos ei enw, cyfeiriad a rhif ffôn, neu fanylion cyswllt asiant sydd â set o allweddi, mewn lle amlwg, ynghyd â manylion sut i alw am gymorth mewn argyfwng.

- Rhaid arddangos manylion wedi'u hargraffu mewn man amlwg o ran sut i alw am gymorth y gwasanaethau brys, e.e. meddyg, deintydd, lleoliad y ffôn cyhoeddus, uned damweiniau a milfeddyg agosaf (os croesawir anifeiliaid anwes).
- Rhaid i bob uned ddarparu trefniadau gwaredu sbwriel ac ailgylchu, yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol. Rhaid bod gan finiau sbwriel gaeadau. Rhaid arddangos manylion casglu sbwriel mewn man amlwg.
- Rhaid darparu allwedd i fynedfa'r uned i westeion a, lle mae hynny'n berthnasol, allwedd yn rhoi mynediad iddynt i'r adeilad ac unrhyw gyfleusterau perthnasol arall.
- Rhaid gosod o leiaf un synhwyrdd mwg, wedi'i leoli mewn man canolog, ym mhob eiddo. Bydd eich asesiad tân yn pennu a ddylai'r synwryddion gael eu cysylltu ai peidio.
- Rhaid bod pob eiddo'n cynnwys lefel dderbyniol o oleuadau yn y nos at ddiben diogelwch ym mhob ardal gyhoeddus, gan gynnwys y grisiau a'r landin, ac mewn meysydd parcio a llwybrau/grisiau.
- Rhaid darparu trydan (nid cyflenwad canolog o reidrwydd). Os nad yw'r eiddo'n darparu trydan, rhaid esbonio hynny. Rhaid nodi'r foltedd os nad yw'r trydan yn cael ei gyflenwi'n ganolog.
- Mewn eiddo sy'n darparu trydan, rhaid darparu nifer dderbyniol o socedi, yn unol â nifer y cyfarpar trydanol a ddarperir.
- Rhaid darparu dulliau goleuo mewn argyfwng, e.e. fflachlamp neu oleuadau nos. Nid yw canhwyllau yn dderbyniol oherwydd rhesymau'n ymwneud â diogelwch. Mae fflachlampau aildrydanadwy yn ddefnyddiol, yn enwedig y math sy'n fflachio yn achos toriad pŵer.

Hanfodion Diogelwch

- Mae gennych ddyletswydd gofal i sicrhau bod yr eiddo rydych yn ei osod yn ddiogel.
- Rhaid cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- Rhaid darparu Mesurydd Carbon Monocsid ym mhob ystafell lle llosgir nwy neu olew, ac mewn ystafelloedd sy'n cynnwys tanau agored neu losgwr pren. Rhaid i bob cegin gynnwys mesurydd, oni bai bod pob cyfarpar yn drydanol, ac mewn unrhyw ystafell sy'n cynnwys boeler gwres canolog. Bob blwyddyn, mae pobl yn marw mewn damweiniau cysylltiedig â gwenwyno carbon monocsid.
- Bydd profion offer symudol (PAT) rheolaidd yn sicrhau bod eich offer yn ddiogel, ond peidiwch ag anghofio bod angen sicrhau bod pob agwedd o'r cyflenwad trydan yn ddiogel.

- Mae angen Tystysgrif Nwy Perchennog ar bob eiddo sydd â chyflenwad nwy.
- Rhaid codi ffens o amgylch pob pwell dŵr er mwyn diogelu plant.
- Rhaid gosod canllaw ar bob grisiau.
- Os ydych yn bwriadu holi eich gwesteion ar ôl iddynt aros yn eich eiddo, gallwch ofyn iddynt a oedd unrhyw beth yn beryglus yn eu barn nhw.
- Yn olaf, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n prynu polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus da.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ystyriwch ddiogelwch tân gwesteion sydd â nam ar eu clyw.
- Efallai bydd larwm tân goleuadau strôb neu system rifo ddomestig yn addas.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Yn ogystal, mae cynnal offer trydanol, nwy ac olew yn helpu i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n effeithlon ac yn cadw eich biliau ynni yn isel o ganlyniad. Pan fydd eich boeler yn cael gwasanaeth, gofynnwch i'r peiriannydd weithredu prawf effeithlonrwydd a darparu graddfa effeithlonrwydd. Os yw'r raddfa yn 'D' neu'n is, gallech wneud arbedion sylweddol trwy osod boeler gyda graddfa 'A'.

2.3 Archebu a Phrisiau

- Nodwch yn union beth sy'n cael ei gynnwys yn y pris ar gyfer yr eiddo, gan gynnwys tâl gwasanaeth, trethi a chostau ychwanegol eraill, e.e. trydan, ynni, tywelion, cotiau ac ati. Lle mae TAW yn berthnasol, dylid dangos pob pris yn cynnwys TAW ar y safon arferol.
- Darparwch fanylion llawn y llety, gan gynnwys trefniadau cysgu ac ystafell ymolchi (bath neu gawod) ar y wefan neu ar ffurflen wedi'u hargraffu a ddarperir i westeion cyn iddynt archebu. Mewn achosion lle darperir trefniadau cysgu ar ffurf gwelyau soffâ, gwelyau wal, gwelyau 'Z', gwelyau gwersylla ac ati, rhaid nodi nifer y lleoedd cysgu yn glir, hynny yw y math, maint a nifer y gwelyau.
- Rhaid nodi unrhyw bolisiau perthnasol am yr eiddo, e.e. dim ysmegu, dim anifeiliaid anwes ac ati, ar adeg yr archeb, er enghraifft, wedi'u nodi'n glir ar y wefan. Gadewch i westeion ymweld â'r eiddo cyn archebu os dymunant wneud (efallai na fydd hynny'n bosibl os oes rhywun yn aros yn yr eiddo).

- Rhaid darparu gwefan neu wybodaeth wedi'i argraffu. Anogir darparu cynllun llawr. Darparwch y trefniadau cyrraedd cyn i'r gwesteion gyrraedd yr eiddo.
- Rhaid hysbysu darpar westeion, cyn iddynt archebu, o unrhyw gostau ar gyfer gwasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo, glanhau a/neu flaendaliadau toriadau.
- Rhaid hysbysu eich gwesteion pan fyddant yn archebu, neu, fel arall, os bydd unrhyw newid yn cael ei wneud i'r manylion archebu.
- Nid oes hawl gennych newid y pris sy'n cael ei ddyfynnu ar adeg yr archeb.
- Darparwch fanylion unrhyw daliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os oes angen, i'ch gwesteion.
- Rhaid bod manylion y dderbynneb yn glir ac yn ddealladwy.

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael cyn archebu:

- Trefniadau parcio ger yr uned
- Trefniadau i anifeiliaid anwes
- Y pellter i'r siop(lau) agosaf
- Natur y cyflenwad dŵr, os nad yn gyflenwad canolog (rhaid i'r cyflenwad dŵr ddiwallu pob rheoliad statudol ar gyfer yfed dŵr)
- Mathau o gyflenwad ynni os nad yn drydan
- Foltedd y cyflenwad trydan, os nad yn safonol
- Map a/neu gyfeiriadau yn dangos lleoliad yr uned ar adeg yr archeb, neu ar y wefan
- Pellter yr uned o'r drafnidiaeth gyhoeddus agosaf

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Rhowch ddewis o ddulliau cysylltu i'ch gwesteion, e.e. ffôn, ffacs, llythyr, e-bost, neges destun. Mae manylion y gwasanaeth *Text Relay* a ddefnyddir gan bobl sydd â nam ar eu clyw ar gael fan hyn: www.textrelay.org
- Gofynnwch i'r ymholwr os oes ganddo ef, neu unrhyw un o'r darpar westeion eraill, anghenion mynediad penodol. Hyrwyddwch eich Canllaw Hygyrchedd/Datganiad Mynediad.
- Darparwch wybodaeth gwesteion mewn ystod o fformatau, e.e. print bras, ffotograffau, fideo, sain ddisgrifiad ac, o bosibl, Braille.
- Hyd yn oed os nad ydych yn croesawu anifeiliaid anwes, nodwch eich bod yn croesawu cŵn cymorth wedi'u hyfforddi (gofyniad cyfreithiol). Mae nifer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn cymorth i ddarparu annibyniaeth. Gwelwch y ci fel rhan o'r person.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Os ydych chi wedi gweithredu er mwyn gwella eich effaith ar yr amgylchedd a'r ardal leol, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi hynny ar eich gwefan/daflen wybodaeth – bydd gwneud hynny'n ehangu apêl eich busnes.
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys ystod lawn o opsiynau trafniadaeth i gyrraedd eich eiddo yn eich gwybodaeth hyrwyddo ac archebu. Yn ogystal â darparu mwy o ddewis, bydd gwneud hynny'n sicrhau eich bod yn apelio i ystod eang o gwsmeriaid.
- Mae gwybodaeth cyn cyrraedd yn gallu hyrwyddo opsiynau wasanaethau dosbarthu bwyd lleol a siopau cyfagos, er mwyn sicrhau nad yw eich gwsteion yn gorfod cludo llawer o fwyd a diod o'u cartrefi neu archebu bwyd o archfarchnad.

3.0 Allanol

3.1 Golwg Adeiladau

- Mae argraffiadau cyntaf yn bwysig tu hwnt. Beth bynnag yw maint neu leoliad eich eiddo, byddwch yn gwneud argraff gadarnhaol ar eich gwsteion os yw'r eiddo yn raenus.
- Dylai unrhyw arwyddion fod yn amlwg, yn daclus ac yn lân. Mae rhai perchnogion yn dewis peidio hyrwyddo'r ffaith bod eu heiddo'n cael ei logi ac, yn yr achosion hyn, dylai rhif neu enw'r eiddo fod yn amlwg o'r ffordd neu wrth agosáu at yr eiddo. Bydd gwsteion newydd yn gwerthfawrogi cadarnhad eu bod nhw wedi cyrraedd pen eu taith.
- Ble bynnag mae'r eiddo wedi'i leoli, dylai edrych yn groesawgar, gyda phaentiad a ffenestri glân, gerddi taclus trwy gydol y flwyddyn a thystiolaeth o gyffyrddiadau ychwanegol, er enghraifft basgedi hongian neu flychau ffenestri a fydd yn gwneud i'r eiddo sefyll ar wahân i'r eiddo arall ar y ffordd neu yn yr ardal.
- Lle mae hynny'n bosibl, dylech osod sgriniau er mwyn cuddio biniau sbwriel neu danciau olew.
- Sicrhewch fod gwelyau blodau, cynteddau, ardaloedd patio a meysydd parcio yn rhydd o unrhyw sbwriel pan fydd gwsteion yn cyrraedd. Nid yw stympiau sigarets gwsteion blaenorol yn gwneud argraff dda!

Bydd aseswyr yn dyfarnu'r sgorau uchaf yn y maes hwn i eiddo lle mae sylw'r perchnogion at fanylion a gwaith cynnal a chadw yn rhagorol, a lle mae cyflwyniad allanol cyffredinol yr eiddo'n awgrymu i westeion na fyddant yn cael eu siomi pan fyddant yn myned i'r eiddo.

3.2 Tiroedd, Gerddi a Pharcio

- Dylai gerddi a/neu ardaloedd agored sy'n rhan o'r uned gael eu cynnal a chadw yn effeithiol, pa un a yw'r eiddo yn cael ei rannu ai peidio.
- Os oes gardd yn rhan o'r eiddo, rhaid darparu dodrefn gardd.
- Os oes gan yr eiddo ardaloedd ategol, bydd y cyfleustrau a ddarperir yn cael eu hystyried yn asesiad yr eiddo, lle maen nhw o dan reolaeth y gweithredwr. Dylai'r ardaloedd ategol gynnwys arwynebau llyfn, mewn cyflwr da, a digon o oleuadau.
- Mae parcio yn ystyriaeth hollbwysig i westeion sy'n cyrraedd mewn ceir. Os nad oes man parcio oddi ar y ffordd, bydd aseswyr yn adolygu'r cyngor a'r camau y mae perchennog yr eiddo wedi'u cymryd i gynorthwyo gwsteion i ddod o hyd i fan parcio ar gyrraedd yr eiddo, a phan fyddant yn dychwelyd i'r eiddo bob dydd.
- Mae angen i fannau parcio ar y safle gael eu marcio'n glir er mwyn lleihau straen i westeion pan fyddant yn cyrraedd yr eiddo, gyda digon o oleuadau i'r rheiny sy'n cyrraedd ar ôl iddi dywyllu.

Bydd aseswyr yn dyfarnu'r sgorau uchaf i eiddo sydd â gerddi a thiroedd rhagorol sydd wir yn synnu gwsteion ar gyrraedd, beth bynnag yw maint y llain neu'r lleoliad.

Os nad oes gan eiddo diroedd, gerddi na manau parcio, ni fydd yr aseswyr y sgorio'r adran hon, ac yn ei nodi yn 'Amherthnasol' (N/A).

3.3 Yr Amgylchedd ac Argraffiadau Cyntaf

- Mae nifer o gwsmeriaid yn dewis llety hunan-ddarpar yn lle llety wedi'i wasanaethu oherwydd eu bod nhw eisiau ymlacio a mwynhau cwmni ffrindiau a theulu, heb gael eu haflynyddu gan gymdogion.
- Dylai unrhyw ofod allanol sydd ar gael i westeion gael ei sgrinio o eiddo cyfagos, lle mae hynny'n bosibl.
- Mewn lleoliadau canol dinas, bydd gwneud hynny'n anoddach, ond bydd gwsteion yn gwerthfawrogi darpariaeth gwydr dwbl neu driphlyg er mwyn lleihau sŵn traffig, tra bydd llenni tywyllu a mesurau eraill yn galluogi gwsteion i fwynhau noson dda o gwsg a lleiafswm o gynnwrf gan breswylwyr eiddo cyfagos. Mae'n bosibl y bydd systemau awyru wedi'u gosod mewn eiddo lle nad oes modd agor ffenestri yn ystod y nos er mwyn sicrhau noson dda o gwsg.

Bydd aseswyr yn dyfarnu'r sgorau uchaf yn yr adran hon i eiddo lle mae preifatrwydd gwesteion yn ddiamheul a lle nad oes unrhyw berygl o gynnwrf gan breswylwyr mewn eiddo cyfagos neu sŵn traffig digroeso. Bydd aseswyr yn ystyried unrhyw gamau mae perchnogion eiddo wedi'u cymryd i leihau llygredd golau neu sŵn wrth ddyfarnu'r sgôr.

Cynghorion

Peidiwch ag esgeuluso'r gofod awyr agored:

- Os ydych yn darparu gofod awyr agored, boed yn ardd neu'n falconi, triniwch ef fel rhan o'r tŷ a'i ddodrefnu i safon debyg.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu digon o seddi i'ch gwesteion, oni bai bod gennych falconi bach.
- Bydd gwesteion eiddo lefelau seren uwch yn disgwyl rhywbeth gwell na dodrefn gardd plastig.
- Mae barbeciws yn boblogaidd iawn ymysg gwesteion. Sicrhewch ei fod yn ddiogel, o ansawdd da ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Dylai gael ei lanhau rhwng pob arhosiad, felly cofiwch gynnwys hynny fel rhan o'ch amserlen lanhau a'ch costau trosglwyddo.
- Os ydych yn croesawu plant bach, ystyriwch amgáu rhan o ardd yr eiddo, o leiaf, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i rieni ymlacio gan wybod bod eu plant yn ddiogel.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Os yn bosibl, darparwch ardal benodol i gŵn cymorth gael rhedeg ar dir eich eiddo.
- Sicrhewch fod llwybrau yn glir o rwystrau, ysgyrion, mwsogl, rhew a dail, a sicrhewch fod yr arwynebau'n cael eu cynnal i safon dda. Sicrhewch fod unrhyw nodweddion parhaol yn ddiogel, e.e. potiau blodau.

4.0 Glanweithdra

4.1 Cyffredinol

- Mae glanweithdra yn hollbwysig i westeion, felly rhaid cynnal safon uchel o lanweithdra trwy gydol yr eiddo, beth bynnag ei raddfa seren. Rhaid talu sylw penodol i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau, ac eitemau sy'n dod i gyswllt uniongyrchol â gwesteion, er enghraifft dillad gwely, lliainiau, tywelion, bath, cawodydd, basnau, toiledau, lloriau, cadeiriau, platiau, cyllyll a ffyrc, gwydrau ac offer cegin.
- Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau bod pob eiddo yn hynod lân cyn bod gwesteion newydd yn

cyrraedd, pa un a yw'r gwesteion blaenorol wedi glanhau'r eiddo ai peidio. Dylai unrhyw eitemau sydd wedi'u torri neu ddifrodi gael eu hailosod.

Cynghorion

Cadw tŷ

- Wrth gwrs, mae'n hanfodol bod eich eiddo yn hynod lân ac yn barod am westeion newydd.
- Ni ddylai fod unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un wedi aros yn yr eiddo cyn iddynt gyrraedd (dim bwyd dros ben, dillad, sbwriel, papurau newyddion ac, wrth gwrs, dim blew ci neu wallt dynol).
- Cadw tŷ yw un o rannau pwysicaf y broses gosod llety gwyliau; mae yna fwy o gwynion gan gwsmeriaid am lanweithdra nag unrhyw faes arall.
- I'r perchnogion hynny nad ydynt yn gallu gwneud y gwaith cadw tŷ eu hunain, mae'n gallu cyflwyno her go iawn. Mae gwasanaethau glanhau o ansawdd da yn anodd dod o hyd iddynt, felly meddyliwch pwy all wneud y gwaith ar eich rhan. Gallwch ofyn i'ch asiant am gymorth, neu gwmni glanhau neu breswlydd/cymydog lleol.
- Cofiwch, nid y glanhau yw'r unig beth o bwys. Mae angen i olwg cyffredinol yr eiddo fod yn dda hefyd, gan gynnwys y gwelyau a chynnwys cypyrddau'r gegin.
- Byddwch yn fanwl wrth gyfarwyddo glanhawyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'ch gofynion.
- Peidiwch â thorri'n ôl ar y glanhau. Os ydych yn anelu at raddfa pedair neu bum seren, bydd angen i'ch safonau cadw tŷ fod yn gyson 'da iawn' neu 'ragorol'. Neilltuwch ddigon o amser ar gyfer yr achlysuron prin pan fydd eich gwesteion blaenorol wedi gadael yr eiddo mewn llanast. Bydd y rhan fwyaf o westeion yn gadael yr eiddo'n daclus pan fyddant yn gadael, ond peidiwch â disgwyl iddynt lanhau'r lle yn drylwyr cyn gadael. Ni fyddent yn gwneud hynny mewn gwesty neu eiddo gwely a brecwast.
- Peidiwch â gadael unrhyw beth i siawns. Gofynnwch i'ch cwsmeriaid am adborth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n hapus gyda'r gwasanaeth glanhau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Ystyriwch ddefnyddio cynhyrchion effaith isel a rhydd o glorin, gan gynnwys lliainiau meicroffibr sy'n lleihau faint o hylif glanhau sydd angen ei ddefnyddio.

5.0 Effeithlonrwydd Rheoli

5.1 Gwybodaeth Cyn Cyrraedd

Asesir y gweithdrefnau sydd yn eu lle ar gyfer delio â gwesteion wrth archebu a chyn cyrraedd fan hyn, gan gynnwys y wybodaeth a anfonir cyn yr archeb sydd â'r nod o rannu gwybodaeth â'r darpar westai am yr eiddo a'r ardal. Bydd angen i'r wefan a/neu daflen wybodaeth gynnwys gwybodaeth glir a chywir am yr eiddo, tra byddai opsiwn archebu ar-lein yn fanteisiol, ynghyd â manylion am y lleoliad, orielau ffotograffau a dolenni at fusnesau twristiaeth lleol. Yn ogystal, dylech ddarparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.

5.2 Croeso a'r Weithdrefn Gyrraedd

Bydd yr asesydd yn gofyn cwestiynau cyflym am eich gweithdrefnau cyrraedd ac unrhyw wybodaeth i westeion a ddarperir cyn cyrraedd. Neilltuir y sgorau uchaf i'r rheiny sy'n arddangos dealltwriaeth ardderchog o anghenion y gwesteion, gyda lefel o bersonoli sy'n anelu at sicrhau bod pob gwestai yn gwneud y gorau o'u harhosiad, gan fynd adref gydag atgofion melys a phrofiadau da i'w trafod, ar ôl ymlacio'n llwyr ar eu gwyliau.

Cynghorion

- Mae gweithdrefnau cyrraedd a chroesawu'n amrywio'n fawr ac, er bod gwesteion yn gwerthfawrogi croeso personol, mae nifer o berchnogion a gweithredwyr wedi datblygu datrysiadau amgen sy'n gallu bod yn hynod effeithiol.
- Cofiwch, mae eich gwesteion wedi dewis gwyliau hunan-ddarpar. Mae croeso personol yn dda iawn, ond peidiwch ag aros yn rhy hir a gadewch i'ch gwesteion ymgartrefu yn yr eiddo. Yn ogystal, mae galw mewn i'r eiddo, ffonio neu anfon neges destun yn hwyrach yn y dydd neu ar y diwrnod canlynol yn syniad da ac yn rhoi cyfle i'r gwesteion ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.
- Nid yw pob perchennog yn byw ger ei eiddo gwyliau, ac felly maen nhw'n dibynnu ar asiant neu unigolyn arall i groesawu gwesteion. Fodd bynnag, os yw defnyddio trydydd parti yn golygu bod rhaid i westeion gyrraedd ar amser penodol, gall hynny gael ei ystyried yn brofiad negyddol i rai pobl, oherwydd bod traffig annisgwyl yn gallu achosi iddynt gyrraedd yn hwyr, neu efallai y byddant yn mynd ar goll ar hyd y daith. Mae hynny'n gallu rhoi pwysau diangen ar eich gwesteion.
- Mae cist allwedi yn cael eu defnyddio'n gynyddol

er mwyn galluogi gwesteion i gael mynediad i'r eiddo ar unrhyw adeg o'r dydd. Er mwyn sicrhau bod y system hon yn gweithio, mae angen i'r eiddo fod yn barod ar gyfer y gwesteion, gyda'r gwres canolog wedi ei danio yn ystod y gaeaf ac, oes yna dân agored, dylai fod wedi cael ei baratoi o flaen llaw. Yn ystod yr haf, ni ddylai'r eiddo fod yn rhy gynnes pan fydd gwesteion yn cyrraedd. Ystyriwch sut y gallwch reoli'r sefyllfa os nad ydych yn byw yn agos ac yn methu â gwirio cyn i'r gwesteion gyrraedd.

- Yn aml, bydd gwesteion yn cyrraedd ar ôl iddi nosi, felly sicrhewch fod digon o oleuadau y tu allan i'r eiddo a bod manau parcio'r gwesteion wedi'u marcio'n glir.
- Ystyriwch ddiogelwch gwesteion sy'n cyrraedd ar ôl iddi nosi mewn lleoliad anghyfarwydd. Sicrhewch nad oes unrhyw rwystrau.
- Yn aml, mae'r broses archebu ar gyfer llety hunan-ddarpar yn cynnwys nifer o ymholiadau wrth ddarpar westeion, ac mae'r negeseuon e-bost a'r galwadau ffôn hyn yn darparu cyfle i'r perchennog deilwra'r croeso er mwyn diwallu anghenion pob parti. Ceisiwch ddarganfod beth yw diddordebau'r gwesteion a beth y dymunant ei wneud pan yn aros yn eich eiddo. Tynnwch sylw at unrhyw ddigwyddidau neu weithgareddau lleol arbennig a fydd o ddiddordeb iddyn nhw cyn iddynt gyrraedd, neu phan fyddant yn cyrraedd, e.e. mewn dinas ag eglwys gadeiriol, oes yna gorau neu hwyrol weddi a fyddai o ddiddordeb i'ch gwesteion? Ble yw'r lle gorau i gael picnic neu'r peint o gwrw gorau, pa dafarndai y gallwch ymweld â nhw er mwyn clywed cerddoriaeth fyw, y siop ardd orau i brynu planhigion, y siop fara orau i brynu bara ac ati?
- Cadwch gofnod o ddiddordebau gwesteion sy'n dychwelyd. Os ydynt yn hoffi ymweld â bwytai gorau'r ardal, cynigwch archebu bwrdd iddyn nhw er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu siomi.
- Meddyliwch beth fydd yn synnu neu'n rhoi plaser i'ch gwesteion, e.e. blwch llawn teganau addas, papurau newyddion wedi'u dosbarthu i'r eiddo (gallwch godi tâl ychwanegol am y gwasanaeth hwn), blwch pobi i alluogi teuluoedd i bobi cacennau ar brynhawniau gwlyb.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Mae hyfforddiant penodol ar gael ar sut i groesawu pob math o wahanol fathau o westeion, e.e. hyfforddiant ar-lein DisabledGo, hyfforddiant Welcome All a WorldHost Customers er mwyn croesawu pobl ag anableddau. Ystyriwch ddsygu sut i gyfathrebu gan ddefnyddio laith Arwyddion Prydain.

- Sicrhewch fod gwesteion sy'n ystyried eu hunain yn anabl, e.e. pobl â nam ar eu golwg, yn cael cynnig taith dywysedig o'r eiddo.
- Darparwch gloc larwm sy'n dirgrynu i westeion â nam ar eu golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Os ydych yn rhoi taith dywysedig i'ch gwesteion o amgylch yr eiddo, treuliwch amser yn dangos iddynt sut i reoli'r system wresogi er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gyfforddus ac i osgoi unrhyw gostau ychwanegol a diangen i'ch busnes.
- Ystyriwch ddarparu cynnyrch lleol i groesawu eich gwesteion, ynghyd â gwybodaeth ynghylch ble y gallant brynu'r cynnyrch ac eitemau tebyg.

5.3 Gwybodaeth i Westeion yn yr Uned a Chyffyrddiadau Personol

Er mwyn dyfarnu'r sgôr uchaf ar gyfer yr adran hon, bydd yr asesydd yn chwilio am wybodaeth drefnus ynghylch sut mae popeth yn gweithio yn yr eiddo, ynghyd ag ystod o wybodaeth leol sy'n arddangos gwybodaeth leol y perchennog a gwir werthfawrogiad o ddiddordebau gwesteion gwahanol.

Cynghorion

- Mae cyfeirlyfr da, gydag indecs, yn hollbwysig i sicrhau bod gwesteion yn teimlo'n gyfforddus yn aros mewn eiddo anghyfarwydd. Mae hefyd yn hanfodol os ydych eisiau lleihau nifer y galwadau ffôn gan westeion pan nad ydynt yn gallu dod o hyd i rywbeth neu pan nad ydynt yn gallu defnyddio offer.
- Dylai'r cyfeirlyfr gynnwys cyfarwyddiadau cynhwysfawr a hawdd i'w deall ar gyfer pob cyfarpar. Bydd cyfarwyddiadau sut i reoli'r gwres, dŵr cynnes a'r teledu ar frig y rhestr, er bydd manylion sut i ddefnyddio amserydd y ffwrn yn bwysig i rai gwesteion. Os nad yw'r cyfarwyddiadau yn hawdd i'w deall, ailysgrifennwch y wybodaeth yn eich geiriau eich hun. Dylech esbonio unrhyw hynodweddau am eich eiddo.
- Cofiwch gynnwys fanylion cyswllt mewn argyfwng y perchennog, y gofalwr neu'r asiant. Os ydych yn anelu at sicrhau graddfa seren uchel, dylech ddarparu rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng 24-awr y dydd.
- Darparwch restr o wasanaethau lleol, er enghraifft y meddyg, uned achosion brys, deintydd, milfeddyg agosaf ac ati.
- Ystyriwch pa mor hygyrch yw offer y gegin ac

ystyriwch ddarparu llechres o bob eitem. Mae'n bosibl y bydd angen fflachlampau, bylbiau neu ffiwsys ychwanegol mewn argyfwng ar westai. A fydd gwesteion yn gallu dod o hyd i'r swits ar gyfer y gwresogydd tywelion? A fydd gwesteion yn gwybod ble i ddod o hyd i'r dillad gwely ar gyfer y gwely sofffa?

- Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth ar weithdrefn ailgylchu'r eiddo a sicrhewch fod bagiau ailgylchu sbâr ar gael os ydynt yn hanfodol.
- Mae gwybodaeth leol yr un mor bwysig. Yn ogystal â'r taflenni gwybodaeth i dwristiaid arferol, darparwch fwydleni tafarndai, bwytai a sefydliadau cludfwyd lleol. Ystyriwch gynnwys gwybodaeth ar ddigwyddiadau lleol, yn enwedig i atyniadau lleol i ymwelwyr. Yn ogystal, darparwch fapiau ar gyfer teithiau cerdded a beicio lleol, ynghyd â gwybodaeth am deithiau cerdded tywysedig a chwmnïau llogi beiciau. Teilwrwch eich gwybodaeth i gydweddu â lleoliad eich eiddo a diddordebau'r gwesteion rydych yn tueddu eu denu. Bydd eich gwesteion yn werthfawrogi iawn o wasanaeth personol.
- Yn ogystal, gallwch ddarparu 'Llyfr Nodiadau i Westeion'. I gychwyn, rhwch adolygiad byr o fwyty neu atyniad i ymwelwyr lleol, a bydd y llyfr yn llenwi ag argymhellion eraill mewn dim amser.
- Ystyriwch brynu map Arolwg Ordnans lleol a'i arddangos ar y wal, gan nodi lleoedd o ddiddordeb yn yr ardal.
- Mae darpariaeth Wi-Fi yn hollbwysig i'r rhan fwyaf o westeion ac yn rhoi mynediad iddynt i haen ychwanegol o wybodaeth. Os nad ydych yn cynnig Wi-Fi, ydych chi'n darparu llawlyfrau a mapiau cyfredol? Os yw eich eiddo wedi'i leoli mewn ardal wledig sydd â darpariaeth Wi-Fi annibynadwy, esboniwch hynny'n glir er mwyn rheoli disgwyliadau eich gwesteion.
- Os yw'r ddarpariaeth ffonau symudol yn annibynadwy yn eich eiddo, gwnewch yn siŵr bod eich gwesteion yn ymwybodol o hynny, a darparwch restr o'r rhwydweithiau sy'n darparu'r signal gorau iddynt. Os nad oes gan eich eiddo ddarpariaeth Wi-Fi a ffonau symudol cryf, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu ffôn dalu, fel arall ni fydd eich gwesteion yn gallu cysylltu â chi mewn argyfwng. Mewn ardaloedd gwledig, pwysleiswch ddiffyg cysylltedd eich eiddo ym mhob darn o wybodaeth a gohebiaeth.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Cofiwch gynnwys gwybodaeth hygyrchedd sylfaenol ar gyfer tafarndai ac atyniadau lleol, neu Ganllawiau Hygyrchedd os yn bosibl.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

Dylai pob eiddo gynnwys, lle mae hynny'n bosibl, ffolder gwybodaeth i ymwelwyr cyfredol yn cynnwys y canlynol:

- Ystod o leoedd i ymweld â nhw a digwyddiadau – gan roi blaenoriaeth i rai lleol ac, os yn bosibl, gwybodaeth o ran sut i'w cyrraedd gan ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus.
- Os oes gan yr eiddo diroedd a gerddi, tynnwch sylw ar unrhyw beth o ddiddordeb a chyfleoedd am antur.
- Gwybodaeth am ystod eang o ffyrdd i archwilio'r ardal leol – beicio, cerdded, marchogaeth ceffylau, trafniadaeth gyhoeddus. Yn hytrach na darparu amserlenni a mapiau yn unig, darparwch enghreifftiau o'r profiadau posibl sydd ar gael i'w mwynhau, gan gynnwys detholiad o fannau o ddiddordeb.
- Manylion lleoedd lleol i brynu bwyd, diod ac anrhegion.
- Hyrwyddwch unrhyw beth mae'r busnes yn ei wneud i wella effaith arhosiad y gwasteion a syniadau am sut mae modd iddyn nhw gyfrannu at wneud gwahaniaeth.

Cynghorion

Trefniadau wrth gefn mewn argyfwng

- Bydd gwasteion yn disgwyl i chi ymateb os oes problem yn codi yn ystod eu harhosiad. Gallwch leihau'r risg trwy weithredu gweithdrefnau glanhau a chynnal a chadw cadarn, ond mae'n anochel y bydd rhyw gyfarpar yn methu yn ystod arhosiad, felly meddyliwch am y ffordd orau y gall gwasteion adrodd problem a sut y byddwch chi'n ymateb. Ni fydd gwasteion yn fodlon os nad ydynt yn gallu cysylltu â chi'n uniongyrchol. Nid yw gadael neges ffôn yn dderbyniol.
- Gwnewch bob ymdrech i osgoi camgymeriadau cadw tŷ. Yr arfer gorau yw cael ail unigolyn i wirio'r eiddo cyn i'r gwasteion gyrraedd. Os oes gennych nifer o eiddo ar y safle a mwy nag un person yn y rôl hon, ystyriwch wirio bythynnod eich gilydd cyn gadael.
- Pa fath o gynllun wrth gefn sydd gennych ar gyfer delio â gwasteion sydd wedi gadael yr eiddo mewn cyflwr annerbyniol? Ydych chi'n gallu galw am gymorth ychwanegol ar fyr rybudd?
- Anogwch eich gwasteion i adrodd yn ôl am unrhyw fân broblemau cyn iddynt adael, efallai trwy anfon neges e-bost atynt ar y noson cyn y byddant yn gadael. Bydd hynny'n rhoi cyfle i chi ailosod unrhyw eitemau sydd wedi torri cyn i'r gwasteion nesaf gyrraedd.

- Sicrhewch fod gennych rwydwaith o weithwyr mewn lle i ddelio â phroblemau cysylltiedig â phlymwaith neu system drydanol yr eiddo, er mwyn sicrhau y byddant yn blaenoriaethu datrys unrhyw broblemau i'ch gwasteion. Nid yw'n dderbyniol dweud wrth eich gwasteion nad oes modd i chi gael gafael ar blymiwr, er enghraifft.
- Cofiwch gynnwys ffigwr realistig fel rhan o'ch cyllid cynnal a chadw blynyddol ar gyfer ailosod offer sydd wedi treulio, yn enwedig eitemau o werth cymharol isel fel pedyll ffrio a thywelion.
- Os ydych yn rheoli eich eiddo eich hun, bydd angen cymorth arnoch pan fyddwch chi ar eich gwyliau, yn sâl neu mewn achosion o argyfyngau teuluol. Hyfforddwch rywun dibynadwy a fydd yn gallu gofalu am eich gwasteion yn eich absenoldeb.
- Dylai perchnogion mwy nag un eiddo gadw detholiad o eitemau sbâr ar y safle.
- Cofiwch, y ffordd rydych chi'n delio â phroblem neu argyfwng yw'r peth pwysig. Bydd eich gwasteion yn deall yn iawn os ydych yn dangos cydymdeimlad go iawn pan maen nhw'n cael eu siomi neu'n rhwystredig gydag unrhyw broblem sy'n codi.

6.0 Ardaloedd Byw a Bwyta

6.1 Cyffredinol

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Bwrdd bwyta a chyfleusterau eistedd ar gyfer y nifer fwyaf o westeion.
- Os oes tân agored yn yr eiddo, rhaid darparu gwarchodwr tân, prociwr, brws, gefail, rhaw, cynhwysydd tanwydd a bwced lludw.
- Rhaid darparu digon o gadeiriau cyfforddus a/neu sofa ar gyfer y nifer fwyaf o westeion.
- Rhaid darparu teledu mewn eiddo sydd â signal teledu. Os nad oes modd derbyn sianeli teledu daearol, rhaid gwneud pob ymdrech i ddarparu dewis arall, er enghraifft teledu cebl neu loeren.
- Rhaid darparu biniau sbwriel anfflamadwy yn yr ardaloedd byw.

Cynghorion

Y cyffyrddiadau ychwanegol

- Bydd rhai o'ch gwasteion yn archebu gwyliau er mwyn 'dianc rhag y byd a'i bethau', tra bydd eraill eisiau peth technoleg wrth law. Felly, ystyriwch ddarparu Wi-Fi, systemau docio a systemau chwarae gemau cyfrifiadurol.

- Mae nifer o gyffyrddiadau ychwanegol y gallwch eu cynnig er mwyn gwneud eich eiddo yn fwy cyfforddus i westeion ac i'w hannog nhw i ddychwelyd. Mae'r rhain yn gallu cynnwys mapiau o'r ardal leol, ysbiedndrychau, llyfrau a gemau, neu eitemau mwy o faint fel twba poeth.
- Bydd gwsteion yn gwerthfawrogi'r ymdrech ychwanegol sydd ynghlwm â darparu cyffyrddiadau ychwanegol, ond ceisiwch osgoi llanast personol. Dylech gadw eitemau personol o dan glo mewn cypyrddau a chynhwyswyr.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch ystod o seddi: uchel, isel, caled, meddal, gydag a heb freichiau.
- Sicrhewch fod y setiau teledu'n gallu darparu isdeitlau er mwyn cynorthwyo gwsteion sydd â nam ar eu clyw neu westeion sy'n siarad ieithoedd tramor.
- Ar bob gris neu newid lefel, darparwch sribed sy'n gwrthgyferbynnu â lliw'r llawr.
- Osgowch osod carpedi trwchus sy'n gallu achosi pobl i gwmpo neu a fydd yn gwneud hi'n anodd i gadeiriau olwyn symud.

6.2 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Rhaid gosod llenni, bleinds neu gaeadau tywyll ar bob ffenestr allanol mewn ardaloedd byw. Yn ogystal, bydd angen gorchuddio drysau gwyrdd lle defnyddir y lolfaf at ddiben cysgu, neu lle gall diffyg preifatrwydd achosi problemau (mae angen gorchuddio pig ffenestri ffrâm 'A' a ffenestri to mewn lolfeydd sy'n cael eu defnyddio fel ystafell wely).
- Os defnyddir ardaloedd byw at ddiben cysgu, rhaid darparu digon o storfeydd i gadw dillad gwely a dillad y gwsteion.

6.3 Preifatrwydd

- Efallai mai golygfeydd godidog yw un o brif atyniadau eich eiddo, ond cofiwch ystyried preifatrwydd eich gwsteion.
- Mae ansawdd yn rhannol yn ymwneud â dewis, ac mae'r opsiwn i gau'r llenni neu'r bleinds yn ychwanegu at y dewis personol hwnnw.
- Bydd ystafelloedd ymolchi â ffenestri tryloyw yn gwneud i'ch gwsteion deimlo'n anghyfforddus, tra bydd bleind wedi'i osod yn dda yn helpu i orffen ystafell. Yn wir, dylai pob ffenestr yn eich eiddo gynnwys llenni neu fleind.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ystyriwch beintio fframiau drysau mewn lliw gwahanol i'r wal ac osgowch orffeniadau paent sglein er mwyn cynorthwyo gwsteion sydd â nam ar eu golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gwnewch yn siŵr nad yw dodrefn a gosodiadau eich eiddo yn atal gwres rhag cylchdroi mewn ystafelloedd.
- Pan mae eitem yn eich eiddo wedi dod i ddiwedd ei bywyd, cofiwch nad taflu'r eitem yw'r unig opsiwn. Gallech chi ddefnyddio gwefan Freecycle neu gynnig yr eitem i gyfleuster cymunedol lleol. O ran offer trydanol, cofiwch ddewis modelau sy'n arbed ynni ac sydd â chostau rhedeg isel (gwiriwch y raddfa ynni neu ewch i www.sust-it.net)
- Defnyddiwch waith celf gan artistiaid lleol, neu luniau neu ffotograffau sy'n dangos golygfeydd lleol, neu ddelweddau cysylltiedig â hanes neu dreftadaeth lleol. Bydd hynny'n ychwanegu at naws am le'r gwsteion.

6.4 Gwresogi, Goleuo ac Awyru

- Rhaid bod gwresogi digonol ar gael trwy gydol arhosiad eich gwsteion a rhaid bod eich gwsteion yn gallu newid yr amseroedd er mwyn sicrhau bod digon o wres a dŵr cynnes ar gael. Os caiff yr eiddo ei wresogi gan wresogyddion storio, rhaid darparu gwresogyddion ychwanegol. Nid yw gwresogyddion paraffin neu nwy Calor yn dderbyniol. Nid yw mesuryddion ceiniogau yn dderbyniol (ar wahân i beiriannau golchi dillad).
- Rhaid bod gan bob ystafell fyw gael o leiaf un ffenestr sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch fod ffenestri a llenni yn hygyrch i'ch gwsteion ac yn hawdd i'w hagor a'u cau.
- Gosodwch switsys pylu golau yn eich eiddo.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Sicrhewch gyfforddusrwydd ac effeithlonrwydd yn eich eiddo trwy osod insiwleiddiad digonol, gan wneud yn siŵr bod gan wresogyddion falffau thermostatig a bod eich gwsteion yn deall sut i'w defnyddio nhw er mwyn rheoli'r tymheredd. Mae angen i eiddo fod yn gynnwys ac yn gyfforddus cyn i'ch gwsteion gyrraedd, ond ystyriwch bryd y dylech ddechrau godi tymheredd yr eiddo er mwyn osgoi defnyddio ynni yn ddiangen.

- Oherwydd bod y goleuadau yn yr ardaloedd hyn yn debygol o gael eu gadael ymlaen am gyfnodau hir, defnyddiwch oleuadau LED ynni isel ar gyfer lampau darllen a bylbiau ynni isel yn lle bylbiau gwnias arferol. Bydd darparu nifer o oleuadau a switsys golau yn helpu i osgoi sefyllfaoedd ‘popeth neu ddim byd’.

7.0 Ystafelloedd Gwely

7.1 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Bwrdd/silff wrth ochr y gwely a golau wrth ochr pob gwely parhaol, gan gynnwys gwelyau bync (gall dau wely sengl mewn ystafell rannu bwrdd a golau, a rhaid i’r gwely bync uchaf gael golau, er y dylech ddarparu silff lle mae hynny’n ddiogel).
- Rhaid darparu biniau sbwriel anfflamadwy.
- Rhaid darparu bwrdd gwisgo (neu gyfwerth) a drych, wardrob neu reilen/gofod i hongian dillad a digon o ddroriau ym mhob ystafell wely (mae silffoedd yn dderbyniol yn lle droriau).
- Rhaid darparu digon o gambrenni dillad ar gyfer pob person. Nid yw cambrenni gwifren yn dderbyniol.

Dwy Seren

- Yn unol â’r uchod.

Tair Seren

- Yn unol â’r uchod.

Pedair Seren

- Yn unol â’r uchod.

Pum Seren

- Rhaid darparu sychwr gwallt.

Cynghorion

Faint o westeion y dylwn i ddarparu ar eu cyfer?

- Nid oes rheol bendant i chi ei dilyn, ond byddwch yn ymwybodol o ofod, cyfforddusrwydd a defnyddioldeb pob rhan o’ch eiddo.
- Nid yw cywasgu cymaint o welyau ag sy’n bosibl i mewn i’r gofod sydd ar gael yn dderbyniol mwyach; mae gwesteion heddiw yn disgwyl mwy.
- Rhaid i ystafelloedd gwely fod yn gyfforddus ar gyfer nifer y gwesteion sy’n cysgu ynddynt, rhaid i chi ddarparu digon o le i storio dillad a rhaid i’r dodrefn fod yn hawdd i’w defnyddio.
- Peidiwch â chael eich temtio i dderbyn mwy o westeion nag y mae eich eiddo yn gallu darparu ar eu cyfer.
- Mae gwelyau soffâ yn gallu darparu gofod cysgu

ychwanegol ond, os ydych yn bwriadu darparu profiad o’r radd flaenaf i’ch gwesteion, nid yw darpariaeth o’r fath yn dderbyniol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Osgowch garpedi trwchus sy’n gallu achosi pobl i gwympo neu a fydd yn gwneud hi’n anodd i gadeiriau olwyn symud.
- Bydd darparu ystafell wely ar y llawr gwaelod yn cynyddu apêl eich eiddo ymysg cyplau hŷn, grwpiau teulu mawr a phobl sydd ag anableddau.
- Ystyriwch beintio fframiau drysau mewn lliw gwahanol i’r wal ac osgowch orffeniadau paent sglein er mwyn cynorthwyo gwesteion sydd â nam ar eu golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Nid yn unig bydd llenni â leinin thermol yn cadw ystafelloedd gwely yn gynnes, ond byddant yn helpu i atal llygredd golau a sŵn, gan greu amgylchiadau cysgu gwell.

7.2 Gwelyau a Dillad Gwely

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Gwelyau sengl – maint lleiaf 183cm x 76cm/6’ x 2’6”. Gwelyau dwbl – maint lleiaf 183cm x 120cm/6’ x 4’. Os ydych yn darparu gwelyau o’r maint lleiaf, rhaid i chi amlygu hynny’n glir ym mhob hysbyseb ac wrth gadarnhau archebion.
- O leiaf un gwely i oedolion nad yw’n wely bync.
- Rhaid gosod gwarchodwr matres neu flanced isaf ar bob gwely (nid yw gwarchodwyr matres plastig neu rwber yn dderbyniol at ddefnydd arferol. Lle darperir gorchudd rhwber i blant, dylai fod yn ychwanegyn dewisol i’r gwarchodwr matres arferol). Bydd angen darparu gwarchodwyr gobennydd hefyd.
- Dylai pob gwely (ar wahân i welyau soffâ) fod yn barod i’ch gwesteion pan fyddant yn cyrraedd yr eiddo am y tro cyntaf, a dylech ddarparu digon o ddillad gwely glân (digon am wythnos) i westeion sy’n aros am fwy nag wythnos.
- Dylech ddarparu dillad gwely sbâr ar gais. Rhaid i’r llieiniau fod wedi eu gwneud o gotwm neu gotwm cymysg.
- Rhaid cynnwys y dillad gwely yn y gost o osod yr eiddo.
- Mewn achosion lle mae’n rhaid i westeion gamu trwy ystafell wely arall er mwyn cael mynediad at eu hystafell wely nhw, rhaid i chi hysbysebu hynny’n glir.

- Mewn achosion lle mae'n rhaid i westeion gamu trwy ystafell wely er mwyn cael mynediad at ystafell ymolchi (ar wahân i ystafelloedd *en-suite*), rhaid hysbysebu'r unedau hyn fel rhai sy'n addas ar gyfer teuluoedd sengl yn unig.

Dwy Seren

- Rhaid i bob gwely fod yn faint llawn (ar wahân i'r rheiny sydd wedi'u nodi'n glir yn eich gwybodaeth fel rhai ar gyfer plant neu welyau soffâ. Rhaid amlygu maint matresi gwelyau soffâ yn glir ar eich gwefan).

Gwely sengl i oedolion – maint lleiaf 190cm x 90cm/6'3" x 3'

Gwely dwbl i oedolion – maint lleiaf 190cm x 137cm/6'3" x 4'6"

Gwely plentyn – maint lleiaf 183cm x 76cm/6' x 2'6"

Tair Seren

- Yn unol â'r uchod.

Pedair Seren

- Rhaid bod pob man cysgu yn yr eiddo mewn ystafelloedd gwely (ar wahân i fflatiau stiwdio).

Pum Seren

- Rhaid i bob gwely fod yn faint llawn, gan gynnwys gwelyau plant (ar wahân i welyau 'Z' a ddefnyddir dros dro ar gyfer plant yn unig).

Mynediad at Welyau

Mewn achosion lle y gall gwesteion gael mynediad i un ochr o'r gwely'n unig, graddfa Tair Seren yw'r raddfa uchaf a ellir ei dyfarnu, a rhaid hysbysu gwesteion o'r uchod pan fyddant yn archebu.

Ystafelloedd Gwely Oriolog

Mewn achosion lle mae gan eiddo ystafell wely orielog, rhaid hysbysebu hynny'n glir.

Gwelyau Soffâ

Gellir cyfrif gwelyau soffâ ar gyfer y nifer uchaf o westeion, hyd at Dair Seren.

Ar lefel Pedair Seren, **ni ddylech** gyfrif unrhyw welyau soffâ yn yr eiddo (ystafelloedd gwely ac ardaloedd cyhoeddus) ar gyfer y nifer uchaf o westeion mewn unrhyw ddisgrifiad o'r eiddo ar unrhyw wefan. Ni ddylai unrhyw ganlyniadau chwilio gynnwys y gwesteion fydd yn cysgu ar welyau soffâ. Fodd bynnag, gallwch gynnwys y gwelyau soffâ mewn disgrifiadau.

Ar lefel Pum Seren, **ni ddylech** gyfrif unrhyw welyau soffâ yn yr eiddo ar gyfer y nifer uchaf o westeion (boed mewn ystafelloedd gwely neu ardaloedd

cyhoeddus) ac ni ddylech gyfeirio atynt mewn unrhyw ddisgrifiad o'r eiddo ar unrhyw wefan. Gallwch adael gwely soffâ yn yr eiddo ond, os nad yw'r soffâ mor gyfforddus â soffâ arferol, mae'n bosibl y byddwch yn cael sgôr cyffordduswydd is.

Cynghorion

- Gwelyau yw un o'r eitemau pwysicaf y byddwch yn prynu ar gyfer eich eiddo.
- Prynwch y gwely gorau y gallwch ei fforddio.
- Yn gynyddol, mae gwesteion yn disgwyl i welyau dwbl fod yn 5 troedfedd o led, os nad 6 throedfedd (gwelyau a gysylltir gan sipiau), yn enwedig ar lefelau sêr uwch. Mae'n debygol y bydd hwn yn ofyniad lefel Pum Seren yn y dyfodol agos.
- Bydd gwely o ansawdd da yn para'n hirach os byddwch yn troi'r fatres yn rheolaidd.
- Ystyriwch opsiynau matres o ansawdd uwch.
- Cyfunwch eich gwely o ansawdd uchel gyda dillad gwely o ansawdd uchel er mwyn gwneud argraff dda ar eich gwesteion.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch welyau a gysylltir gan sipiau er mwyn darparu llety i bartneriaid neu ofalwyr personol.
- Darparwch flociau er mwyn addasu taldra gwelyau.
- Darparwch ddillad gwely hypoalergenig.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Nid oes angen lapio blancedi; gallwch ddangos pa mor ffres yw'r blancedi trwy glymu rhuban o'u hamgylch, neu hyd yn oed drwy eu plygu nhw'n daclus. Fel arall, gallwch eu gosod nhw mewn bag ail-ddefnydd.

7.3 Gwresogi, Goleuo ac Awyru

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Rhaid bod modd i'ch gwesteion ddefnyddio'r dull o wresogi'r eiddo ar unrhyw adeg, sy'n golygu bod angen i'ch gwesteion allu newid yr amseroedd er mwyn sicrhau bod digon o wres a dŵr cynnes ar gael. Os caiff yr eiddo ei wresogi gan wresogyddion storio, rhaid darparu gwresogyddion ychwanegol.
- Rhaid bod gan bob ystafell wely o leiaf un ffenestr sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored, a ffenestri wedi'u gorchuddio gan lenni, bleinds neu gaeadau tywyllu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch fod ffenestri a llenni yn hygyrch i'ch gwesteion ac yn hawdd i'w hagor a'u cau.
- Gosodwch switsys pylu golau yn eich eiddo neu sicrhewch fod lampau ychwanegol ar gael.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Oherwydd bod ystafelloedd gwely yn gallu cael eu gadael yn wag am gyfnodau hir, anogwch eich gwesteion i ddiffodd pob swits nad ydynt yn ei ddefnyddio. Gwiriwch nad oes gwynt yn dod trwy eich ffenestri ac nad oes dodrefn neu lenni'n atal y gwres rhag cylchdroi.
- Dewiswch fylbiau ynni isel o ansawdd da er mwyn osgoi rhwystredigaeth wrth iddynt gynhesu (mae cylchgrawn Which? yn darparu adolygiadau ar-lein o fylbiau ac offer ynni isel amrywiol) a darparwch amrywiaeth o swistys golau i alluogi eich gwesteion ddewis sut y dymunant oleu'r eiddo.

8.0 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

8.1 Cyffredinol

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

- Mae angen un ystafell ymolchi (gyda bath a/neu gawod) a thoiled ar gyfer pob chwe gwestai*.
- Rhaid i'r ystafell ymolchi gynnwys bath neu gawod, mat bath, tywel, silff neu arwyneb gwastad a basn ymolchi. Os nad yw sylfaen y bath neu'r gawod wedi ei gwneud o ddeunydd atal llithro, rhaid darparu mat atal llithro. Rhaid darparu dysgl sebon ym mhob cawod.
- Os oes gan unrhyw ystafell wely ystafell ymolchi *en-suite*, rhaid i'r gymhareb o ystafell(oedd) ymolchi eraill i ystafelloedd gwely eraill gwrdd a'r lleiafswm o 1:6. Os nad oes cawod yn yr eiddo, rhaid i chi hysbysebu hynny'n glir.
- Nid yw cael mynediad i'r unig ystafell ymolchi trwy ystafell wely yn dderbyniol, oni bai mai eiddo ar gyfer dau o westeion yn unig ydyw.
- Rhaid bod y basn ymolchi yn y brif ystafell ymolchi fod o leiaf 36cm x 24cm/14" x 9", er ein bod yn argymhell gosod basn ymolchi maint safonol os oes lle gennych (gallwch osod basnau ymolchi llai o faint mewn ystafelloedd ymolchi *en-suite* neu doiledau eraill ar wahân).
- Rhaid gosod drych uwchben neu ger y basn ymolchi.
- Rhaid i bob uned gynnwys o leiaf un toiled sydd â rholyng papur tŷ bach llawn a daliwr, brws tŷ

bach a bin sbwriel gyda chaead ar gyfer cadachau misglwyf.

- Rhaid bod pob ffenestr wedi'i gorchuddio gan lenni, bleinds neu gaeadau tywyll (rhaid gosod llenni neu fleinds tywyll ar bob drws gwydr i ystafelloedd ymolchi a thoiledau).
- Rhaid bod pob ystafell ymolchi yn cynnwys gwresogydd. Mae gwresogydd cynhesu tywelion yn dderbyniol. Ni anogir bylbiau wedi'i cynhesu.
- Rhaid bod dŵr cynnes ar gael bob amser (hynny yw, rhaid bod gwesteion yn gallu troi'r boeler neu'r twymwr tanddwr arno ar unrhyw amser).
- Rhaid gosod clo neu follt ar bob drws ystafell ymolchi a thoiled, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi *en-suite*.
- Rhaid gosod soced eillio ger y drych, ynghyd â golau yn ddelfrydol. Mae darparu addasydd rhywle arall yn yr uned yn dderbyniol, cyn belled â'i fod yn agos at ddrych.

Dwy Seren

- Yn unol â'r lleiafswm.

Tair Seren

- Un ystafell ymolchi (gyda bath a/neu gawod) a thoiled i bob chwe gwestai*.
- Mewn unedau sy'n rhoi llety i o leiaf tri o bobl, rhaid darparu cawod. Rhaid bod yn gawod yn llawrydd, ond mae'n bosibl ei gosod dros fath, e.g. tap cymysgu.
- Tywelion – rhaid darparu un tywel llaw ac un tywel bath i bob gwestai heb godi cost ychwanegol.

Pedair Seren

- Yn unol â 3 seren.
- Mewn unedau sy'n rhoi llety i o leiaf pump o bobl, rhaid darparu toiled a basn ymolchi ychwanegol. Rhaid bod y gawod yn llawrydd.

Pum Seren

- Rhaid bod yr uned yn cynnwys un ystafell ymolchi (gyda bath, cawod a thoiled) ar gyfer pob pedwar gwestai*.
- Os nad yw'r uned yn cynnwys bath, rhaid bod y cawodydd o ansawdd ardderchog a rhaid bod yr ystafell gawod yn fawr ac yn cynnwys gosodiadau o'r radd uchaf (e.e. cawod law, ail ben cawod ac ati), a rhaid bod hynny'n cael ei nodi'n glir yn y wybodaeth archebu.
- Ar lefel pum seren, rhaid bod gan y bath/gawod osodiadau o ansawdd uchel, e.e. cuddyglau cawod neu sgriniau cawod a chawodydd a reolir yn thermostatig.
- Rhaid bod yr ystafelloedd ymolchi'n cynnwys ffordd o sychu tywelion trwy gydol y flwyddyn (e.e. gwresogyddion tywel gydag elfen drydanol).

* Rhaid cynnal y cymarebau bath/cawod/toiled/basn ymolchi wrth i ddeiliadaeth gynyddu.

Cynghorion

Cymarebau Ystafelloedd Ymolchi

- Mae darparu ystafelloedd ymolchi *en suite* mewn cartrefi gwyliau yn tyfu'n gyflym.
- Wrth sefydlu eich cartref gwyliau, ystyriwch y gymhareb ystafelloedd ymolchi i westeion. Mae safon Croeso Cymru'n edrych am gymarebau gwahanol ar y gwahanol lefelau seren, ond ceisiwch fynd y tu hwnt i'r rhain, oherwydd bydd galw gan gwsmeriaid yn cynyddu dros amser.
- Efallai bydd yr ystafell ymolchi ychwanegol yn ychwanegu mwy o werth i'ch eiddo o gymharu ag ystafell wely ychwanegol. Meddyliwch am y cyplau sydd eisiau mynd ar wyliau gyda'i gilydd (neu westeion unigol).

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Rhaid gosod falf cymysgu ar bob cyfarpar cyflenwi dŵr cynnes, wedi'i osod ar uchafswm o 41°C er mwyn atal llosgi.
- Darparwch ddetholiad o offer fel seddi bath, seddi toiled o uchder gwahanol a chadeiriau cawod.
- Darparwch ganllaw cymorth wrth ochr y gawod.
- Darparwch dywelion sy'n wahanol o ran lliw i'r waliau a'r lloriau er mwyn cynorthwyo gwsteion sydd â nam ar eu golwg.
- Sicrhewch fod gwsteion yn gallu cyrraedd ffenestri a llenni heb drafferth a'u bod nhw yn hawdd i'w hagor a'u cau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Er bod darparu cyfleusterau cawod yn gallu helpu i leihau defnydd dŵr, cofiwch fod cawodydd pŵer yn gallu defnyddio mwy o ddŵr na bath. Mewn unedau sydd â phwysedd dŵr isel, gellir defnyddio pennau cawod awyredig, sy'n cymysgu aer gyda'r dŵr i ddarparu mwy o bŵer gan ddefnyddio llai o ddŵr a gwella effeithlonrwydd dŵr. Mae tapiau basnau ymolchi awyredig yn cymysgu aer â dŵr i ddarparu llif ewynnog o ddŵr sy'n fwy effeithlon o gymharu â thap safonol.
- Mewn perthynas â thanciau dŵr hŷn, sydd â mwy o gapasiti, gellir gosod dyfeisiau arbed dŵr (sydd ar gael yn aml oddi wrth gwmnïau cyflenwi dŵr) yn ddidrafferth er mwyn lleihau defnydd dŵr.
- Defnyddiwch gyflenwyr pwmpio sebon mwy o faint er mwyn gwaredu'r angen am farau sebon unigol. Bydd aseswyr yn edrych ar gynnwys ac arddull eich eiddo. Fel arall, defnyddiwch sebon sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.

- Ni ddylai'r gwydr yfed sbâr fod wedi'i wneud o blastig neu wedi'i lapio.
- Mae gwresogyddion tywelion yn gallu gwella profiad yr ymwelydd, ond gwnewch yn siŵr bod modd eu rheoli nhw er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael ei gadael arno trwy'r dydd.
- Mae goleuadau halogen yn boblogaidd mewn ystafelloedd ymolchi, ond mae'n bosibl gosod goleuadau LED yn eu lle, sy'n defnyddio hyd at ddeg gwaith yn llai o ynni ac yn para'n llawer hirach.

9.0 Cegin

9.1 Cyffredinol

Gofynion Mynediad Lleiaf (Un Seren)

Pob Gradd

- Popty gyda ffwrn ac o leiaf dwy silff, gril ac o leiaf pedair modrwy ferwi y gellir eu defnyddio ar yr un pryd, gyda'r ffwrn a'r gril. Os mai uned dau berson yw eich eiddo, rhaid darparu dwy fodrwy berwi, ffwrn a gril. Ar gyfer eiddo mwy o faint, e.e. llety ar gyfer deuddeg o bobl neu fwy, rhaid darparu adnoddau coginio ychwanegol. Mae microdon yn dderbyniol fel dewis amgen cyferwerth ag un fodrwy ferwi. Mae microdon gyfun (ffwrn, gril a microdon) yn dderbyniol fel gril neu ffwrn, cyn belled ag y bod tair modrwy ferwi ar gael ar wahân.
- Rhaid darparu microdon, offer coginio a chrochenwaith addas.
- Rhaid darparu oergell gydag adran cynhyrchu rhew (oni bai eich bod yn darparu rhewgell). Nid yw oergelloedd bwtri'n dderbyniol os nad oes rhewgell yn yr eiddo.
- Rhaid darparu sinc a bwrdd draenio, rac sychu llestri, cyflenwad dŵr cynnes a dŵr yfed oer.
- O leiaf un arwyneb gwaith glân.
- Un ffenestr y gellir ei hagor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Llenni, bleinds neu gaeadau tywyll ar ddrysau a ffenestri gwydrog.
- Rhaid darparu bin sbwriel wedi'i orchuddio, a leinin.
- Rhaid darparu blanced tân hygyrch. Dylai'r flanced gael ei gosod ar y wal rhwng y ffwrn a'r drws. Nid yw cadw'r flanced mewn cwpwrdd neu dros y ffwrn yn dderbyniol. Gellir gosod y flanced dân y tu allan i'r gegin, cyn belled â bod modd ei chyrraedd yn gyflym ac yn didrafferth (gallwch gael mwy o gyngor oddi wrth eich swyddog atal tân lleol).
- Gofod addas ar gyfer storio bwyd.

- Rhaid darparu peiriant sugno llwch ar gyfer pob uned (mae math cryno yn dderbyniol), oni bai eich bod yn darparu gwasanaeth glanhau dyddiol.
- Mewn unedau sy'n cynnwys peiriant golchi llestri, rhaid darparu crochenwaith, cyllyll a ffyrc ac offer addas. Yn ogystal, dylech ddarparu crochenwaith ychwanegol er mwyn sicrhau nad oes angen defnyddio'r peiriant golchi llestri ar ôl pob pryd bwyd ar gyfer nifer llai o westeion.
- Digon o le i storio'r crochenwaith, cyllyll a ffyrc, offer cegin a glanhau a ddarperir.

Dwy Seren

- Yn unol â'r uchod.

Tair Seren

- Yn unol â'r uchod.

Pedair Seren

- Mynediad at beiriant golchi os na ddarperir un yn yr uned. Cymhareb o un peiriant i bob pum uned. Yn ogystal, mae cynnig gwasanaeth golchi dillad (dychwelyd mewn 24 awr) yn dderbyniol.
- Mynediad at rewgell (neu flwch rhew 3* mewn oergell). Bydd aseswyr yn gwneud eu penderfyniadau ar sail maint y rhewgell, yn ddibynnol ar ddeiliadaeth yr uned. Mae mynediad at rewgell a rennir gan uned arall yn dderbyniol, cyn belled ag eich bod yn hysbysebu hynny'n glir.
- Os bydd perchnogion yn dewis darparu peiriant golchi llestri yn lle peiriant golchi dillad, oherwydd cyfyngiadau lle, gallwch ofyn am ddsbarthiad. Rhaid i wefan yr eiddo restru'n glir pa gyfarpar sydd yn rhan o'r uned.

Pum Seren

- Rhewgell yn rhan o'r uned.
- Peiriant golchi llestri yn rhan o'r uned (ystyriwch faint y peiriant er mwyn gwasanaethu nifer y bobl sy'n gallu aros yn yr uned).
- Peiriant golchi dillad yn rhan o'r uned (mae ystafell olchi dillad allanol ar uned aml-uned yn dderbyniol, cyn belled ei fod ar agor 24 awr y dydd). Cymhareb o un peiriant ar gyfer pob pum uned. Nid yw defnyddio peiriant golchi dillad y perchennog yn dderbyniol (mae cynnig gwasanaeth golchi dillad (dychwelyd mewn 24 awr) yn dderbyniol).

Cynghorion

Cyfarpar y Gegin

- Mae gwesteion yn disgwyl holl gyfleusterau'r cartref, hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu eu defnyddio.
- Efallai bod eich eiddo wedi'i leoli mewn ardal llawn bwytai, ond ni fydd pob gwestai eisiau, neu'n gallu fforddio, bwyta allan bob dydd. O ganlyniad, bydd

- angen i'ch cegin gynnwys pob math o gyfarpar.
- Os oes gennych ofod, ystyriwch ddarparu peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad, peiriant sychu dillad a rhewgell ar wahân, yn ogystal â'r holl offer angenrheidiol arall.
- Darparwch grochenwaith, cyllyll a ffyrc a gwysdrau ychwanegol, yn enwedig os yw eich eiddo'n cynnwys peiriant golchi llestri.
- Bydd rhai gwestai'n gwerthfawrogi llestri ychwanegol, er enghraifft gwysdrau siampên.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch fod eich crochenwaith yn gwrthgyferbynnu ag arwyneb y bwrdd er mwyn cynorthwyo gwesteion sydd â nam ar eu golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Bydd y rhan fwyaf o westeion wedi arfer gwahanu eu gwastraff. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau gwahanol ar waith ledled y wlad, felly darparwch esboniad syml o system eich eiddo i'ch gwesteion. Mae cynhwyswyr glân, wedi'u cyflwyno'n dda ac wedi'u labelu yn hanfodol.
- O ystyried y bydd oergelloedd a rhewgelloedd yn cael eu gadael ymlaen am gyfnodau hir o amser, mae'n hanfodol eich bod yn ystyried eu costau rhedeg, yn ogystal â'u costau prynu trwy ddewis model ynni-effeithlon. Mewn achosion pan fydd bwlch o hyd at wythnos rhwng gwesteion yn gadael a chyrraedd yr eiddo, ystyriwch ddiffodd yr oergell a gadael y drws ar agor er mwyn sicrhau awyriad.
- Mae goleuadau halogen yn boblogaidd mewn ceginau, ond mae'n bosibl gosod goleuadau LED yn eu lle, sy'n defnyddio hyd at ddeg gwaith yn llai o ynni ac yn para'n llawer hirach.

9.2 Rhestr Offer y Gegin

Crochenwaith a chyllyll a ffyrc sy'n cydweddu

- Digon ar gyfer nifer y gwesteion sy'n gallu aros yn yr uned. Crochenwaith a chyllyll a ffyrc ychwanegol os oes peiriant golchi llestri yn yr uned. Darparwch ddigon o lwyau te. Ni ddylai'r crochenwaith na'r cyllyll a ffyrc fod wedi eu difrodi mewn unrhyw ffordd. Cofiwch ddarparu cwpanau wŷ.
- Ystod ehangach o eitemau, e.e. platiau, dysglau, cwpanau a soseri o wahanol feintiau. Nid yw darparu cwpanau a soseri yn hanfodol, ond ceisiwch ddarparu ystod o ansawdd uchel iawn. Bydd gwesteion unedau lefel uwch yn disgwyl i chi darparu cyllyll a ffyrc llai a llwyau cawl.

Gwydrau

- Tymbleri a gwydrau gwin o leiaf. Byddai gwesteion yn gwerthfawrogi jwg ddŵr.
- Darparwch wydrau siampên neu ystod o wydrau o ansawdd da, yn unol â disgwyliadau eich marchnad darged.

Dysglau gweini

- Yn unol â disgwyliadau eich marchnad darged – powlen salad, dysglau mawr, powlen ffrwythau, basged fara ac ati. Ystyriwch ddarparu cynhwyswyr/dysglau bach ar gyfer gweini creision a chnau.
- Bydd gwesteion unedau lefel seren uwch yn disgwyl ystod eang o ddysglau o ansawdd da.

Llwyau gweini

Tebot, jwg llaeth a chwpan siwgr. Pupur a Halen.

- Dylai'r uned gynnwys *cafetiere* neu beiriant coffi, yn unol â disgwyliadau eich marchnad darged.
- Bydd gwesteion unedau lefel seren uwch yn disgwyl tebotau, cafetieres a jygiau o wahanol feintiau.

Cynhwyswyr defnyddiol ar gyfer bara, eitemau ac ati.

- Mae'n werth darparu cynhwyswyr plastic aerglos o wahanol feintiau, yn enwedig rhai y gellir eu rhoi yn y peiriant golchi llestri.

Cyllell fara, cyllell gerfio a chylllyll miniog eraill

- Bydd angen i unedau mwy o faint ddarparu ystod ehangach o offer.

Byrddau torri, byrddau bara ac ati.

Ystod o offer cegin

- e.e. agorwr tun, pliciwr tatws, gratiwr, cyllell bysgod, stwnsiwr tatws, llwy gawl, siswrn cegin, llwyau pren, chwipiwr ac ati.
- Bydd gwesteion unedau lefel seren uwch yn disgwyl mwy o gyfarpar, e.e. prosesydd bwyd, cymysgwr bara, peiriant creu pasta, chwipiwr trydanol, pestl a mortar ac ati.

Ystod o fowlenni cegin, jygiau mesur ac ati

- Ystyriwch ddarparu clorian cegin, yn unol â disgwyliadau eich marchnad darged.
- Bydd gwesteion unedau lefel seren uwch yn disgwyl eitemau pobi, gan gynnwys tuniau cacennau, raciau oeri, rholbren, torwyr, dysglau pastai, dysgl gaserol ac ati.

Tuniau rhostio a thuniau/dysglau eraill sy'n addas i'w defnyddio yn y ffwrn

Tegell trydan a thostiwr

Ystod o sosbenni (gan gynnwys o leiaf un sosban nad yw'n glynu) ac o leiaf un badell ffrio

- Darparwch ystod eang o sosbenni mawr a phedyll ffrio os yw'r uned yn cymryd grwpiau mwy o faint. Bydd rhai gwesteion yn gwerthfawrogi padell omled.
- Sicrhewch fod y pedyll ffrio mewn cyflwr da.

Colandr neu ridyll

Corcsgriw neu agorwr potel

Hambwrdd/Hambyrddau

Hambwrdd gwneud iâ (oni bai bod yr uned yn cynnwys uned cynhyrchu iâ)

Fâs/Fasys

Blychau llwch (os caniateir ysmegu)

Matsis/Taniwr

Cyfleuster sychu dillad (awyrydd neu lein ddillad a phegiau)

- Bydd rhai gwesteion yn gwerthfawrogi basged dillad plastig/gwial.

Peiriant sugno llwch/brws, mop a bwced, padell ludw a brws, yn unol â'r math o lawr sydd yn yr uned.

Cyflenwad sylfaenol o ddeunydd glanhau, hylif golchi llestri, papur tŷ bach ym mhob toiled

- Bydd rhai gwesteion yn gwerthfawrogi cyflenwad o bowdwr/tabledi peiriant golchi llestri.
- Bydd gwesteion unedau lefel seren uwch yn disgwyl i chi ddarparu papur cegin, ffoil, *cling film* ac ati.

Bwrdd a Haearn Smwddio

Menig neu faneg ffwrn

Cyflenwad o dywelion te/tywelion cegin

Bylbiau golau sbâr

Fflachlamp(au)

Lliain bwrdd neu fatiau bwrdd.

- Ystyriwch orchuddio bwrdd bwyta'r eiddo gyda lliain plastig os ydych yn croesawu teuluoedd.
- Bydd rhai gwesteion yn gwerthfawrogi cadachau.

Powlen golchi llestri a sbwng/cadachau/brws newydd

Mat wrth y drws/drysau allanol

10.0 Cyfleusterau Ychwanegol

10.1 Cyffredinol

Er enghraifft: adnoddau golchi dillad, hamdden, derbynfa, siop, bar, bwyty. Nid oes rhaid i chi ddarparu'r rhain ond, lle cânt eu darparu, bydd eu hansawdd a chyflwr yn ffurfio rhan o'r asesiad ansawdd.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Adnoddau golchi dillad – gall peiriannau golchi dillad ac, yn benodol, peiriannau sychu dillad, ddefnyddio llawer iawn o ynni. Pan fyddwch yn prynu cyfarpar newydd, mae'n hanfodol eich bod yn dewis model ynni effeithlon gyda chostau rhedeg is. Mae rhai busnesau hefyd yn gwahodd gwesteion i roi arian i elusen leol wrth ddefnyddio peiriannau sychu dillad fel ffordd o gyfyngu eu defnydd.
- Derbynfa/siop/bar/bwyty – sicrhewch eich bod yn cynnig ystod o fwyd a diod leol (e.e. bacwn, selsig, wyau, jam ac ati) a chrefftau lleol.

11.0 Cod Ymddygiad

Mae gofyn i berchennog /reolwr yr eiddo weithredu a pharchu'r Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal, glanweithdra a gwasanaeth gwesteion, yn unol â'r math o sefydliad.
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, taflen wybodaeth neu gyfrwng arall digidol neu wedi'i argraffu.
- Esbonio'n glir i ymwelwyr yr hyn sy'n cael ei gynnwys ym mhob gohebiaeth am y llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill. Yn ogystal, dylech esbonio costau unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol eraill i ddarpar westeion.
- Esbonio eich polisi ar ganslo i westeion ar adeg eu harcheb, hynny yw, dros y ffôn, ffacs, e-bost, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hargraffu.
- Cydymffurfio â'r uchod, ac osgoi codi mwy na'r pris a ddyfynnwyd gennych ar adeg yr archeb (llety a gwasanaethau eraill).
- Hysbysu darpar westeion ar adeg yr archeb os yw'r llety yn rhan o adeilad atodol neu debyg, a nodi lleoliad y llety ac unrhyw wahaniaeth o ran cyfforddusrwydd a/neu gyfleusterau o gymharu â'r llety yn y sefydliad.

- Ar gais, darparu manylion unrhyw daliadau sy'n ddyledus. Delio â phob ymholiad, cais, archebion a gohebiaeth yn brydlon ac yn gwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion yn eu lle ac eich bod yn archwilio unrhyw gwynion yn brydlon ac yn gwrtais ac eich bod yn rhannu'r deilliant gyda'r ymwelydd.
- Ystyried anghenion unrhyw ymwelwyr sydd ag anableddau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, a diwallu eu hanghenion os yn bosibl.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu gyfwerth, a chydymffurfio â phob gofyniad statudol cynllunio a diogelwch perthnasol.
- Ar gais, rhoi mynediad rhesymol i gynrychiolydd Croeso Cymru i'r sefydliad er mwyn cadarnhau eich bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad.

12.0 Amodau Cyfranogi

Rhaid i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru:

- Gwrdd neu fynd y tu hwnt i ofynion mynediad lleiaf Croeso Cymru o ran cyfleusterau, gwasanaethau ac ansawdd.
- Parchu Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cytuno i gael ei asesu gan gynrychiolydd awdurdodedig Croeso Cymru yn dilyn cwyn.
- Talu ffi gyfranogi flynyddol.
- Darparu Datganiad Mynediad/Canllaw Hygyrchedd.

13.0 Newid Mewn Perchnogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, nid oes modd trosglwyddo'r raddfa seren i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun graddio seren Croeso Cymru.

14.0 Arwyddion

Pan fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn stopio bod yn rhan o gynllun graddio seren Croeso Cymru, rhaid gwaredu pob arwydd perthnasol ar unwaith.

Rhaid cynnwys logo Croeso Cymru ochr yn ochr â phob graddfa Seren.

Os na fydd y sefydliad yn cydymffurfio â'r telerau uchod, mae'n bosibl y bydd yr eiddo'n cael ei wahardd rhag arddangos arwyddion Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd.

15.0 Beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â'r raddfa Seren a roddwyd

Os nad ydych yn cytuno â'r raddfa Seren a roddwyd i'ch eiddo neu os ydych yn anghytuno ag agweddau penodol adroddiad yr Asesydd Ansawdd, cysylltwch â ni cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi dderbyn yr adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio tîm Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfon neges e-bost at quality.tourism@llyw.cymru a byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddatrys eich sefyllfa.

Fel arall, gallwch ysgrifennu atom: Yr Adran Sicrhau Ansawdd, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau Ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru